Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arloesi

# Adventa

## Adventa’n lansio ystodau unigryw o gynnyrch ledled y byd gyda chymorth arloesi Llywodraeth Cymru




Glass Mount Adventa, a ddatblygwyd gyda chyllid arloesi

Cafodd **Adventa**, sydd wedi’i leoli ym Mhowys, ei sefydlu ym 1983 fel busnes teuluol yn arbenigo mewn mowldio chwistrellu. Dros dair degawd yn ddiweddarach, mae’r cwmni wedi dod yn ddylunydd a chyflenwr blaenllaw ym maes cynnyrch argraffu di-oed ar gyfer cwsmeriaid cyfanwerthu a masnachol byd-eang, gyda chatalog cadarn o gynnyrch sy’n cynnwys popeth o fagnetau a chylchau allweddi i gasys ffonau symudol a murluniau. Roedd yn awyddus i sicrhau ei fod yn aros ar flaen y gad mewn sector sy’n symud yn gyflym, felly aeth Adventa ati i chwilio am gyllid arloesi ar gyfer datblygu ystod newydd o gynnyrch ac ehangu ei ôl troed byd-eang. Cyfrannodd y gefnogaeth at gynnydd mewn trosiant a hefyd anogwyd y cwmni i gofleidio deunyddiau, dulliau dylunio a thechnoleg newydd.

Fel arbenigwyr mewn mowldio chwistrellu, roedd Adventa wedi adeiladu busnes teuluol cadarn ar sail cynnyrch argraffu di-oed ar gyfer cwsmeriaid masnachol a chyfanwerthu. Roedd ganddo’r nod o fod y prif gyflenwr arbenigol byd-eang mewn marchnad a oedd yn esblygu’n gyflym, ac roedd angen i’r cwmni ddatblygu ei ystod o gynnyrch a rhoi hwb i’w fusnes allforio.

**Cyflawniadau Allweddol Adventa:**

- Dull arloesol yn cofleidio deunyddiau, dulliau dylunio a thechnoleg newydd
- Datblygu dwy ystod newydd o gynnyrch a thwf o 32% mewn busnes allforio mewn dwy flynedd
- Cynnydd o 30% mewn trosiant mewn dwy flynedd ers cael mynediad i gymorth arloesi
- Y cwmni wedi dod yn flaenllaw fel dylunydd a chyflenwr cynnyrch argraffu di-oed ar gyfer cwsmeriaid cyfanwerthu a masnachol

Roedd y cwmni wedi datblygu ystod gyfoes o fframiau ffotograffau o wydr gan ddefnyddio gwydr diogelwch gwydn, ond roedd y broses o gynhyrchu'r rhain yn golygu gosod y cefnau â llaw, ac nid oedd hyn yn effeithlon nac yn gosteffeithiol. Cafodd y tîm gymorth cyllid arloesi Llywodraeth Cymru i ddatblygu peiriant gludo newydd a fyddai'n gosod y cefnau'n awtomatig, ar gyflymder uchel. Hefyd, bu'r peiriant o gymorth i Adventa o ran creu ystod newydd arall o gynnyrch a elwir yn QuickPro Artwrap
– sef cynnyrch murlun cynfas unigryw sy'n defnyddio adeiladwaith bwrdd cryf a system plygu a chloi sydd â phatent.

Gan wybod y byddai'r cynnyrch hwn yn apelio at farchnad fyd-eang, gofynnodd Adventa am gyngor gan Lywodraeth Cymru ynghylch datblygu ei fusnes allforio hefyd, a chafodd gefnogaeth wrth lansio'r ddwy ystod o gynnyrch yn arddangosfa Photokina yn Cologne – sef ffair fasnach fyd-eang flaenllaw ar gyfer y sectorau ffotograffiaeth, fideo a delweddu.

Mae cyllid arloesi'n cefnogi amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn enwedig yr ysfa i greu Cymru fwy llewyrchus. Gwelodd Adventa gynnydd o dros 30 y cant yn ei drosiant yn ystod y ddwy flynedd y bu'n derbyn cymorth arloesi, ac roedd gwerthiant ei gynnyrch newydd yn rhan sylweddol o hyn. Ar ôl mynychu Photokina, gwelodd Adventa gynnydd o 32 y cant mewn gwerthiannau net i fusnesau tramor, ac mae'n credu bod ei bresenoldeb yn y digwyddiad wedi cynorthwyo gyda chyflawni cynnydd yn rhyngwladol o ran ymwybyddiaeth brand hefyd.

> "Ni fyddai ein trosiant yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn, oni bai am ein buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu cynnyrch newydd. Mae arloesi a dylunio'n hanfodol i'n twf, a dyna pam mae'r gefnogaeth a'r cyllid a dderbyniom oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi bod mor werthfawr. Roedd y cyngor, y gefnogaeth a'r arbenigedd a dderbyniom gan ein harbenigwr arloesi'n rhagorol. Roedd yr holl broses yn llyfn ac mae wedi cael effaith sylweddol ar gyflymder cynhyrchu ystod ganolog o gynnyrch ar ein cyfer."
> Mark Morrish, Rheolwr Gyfarwyddwr, Adventa.

Busnes Cymru | Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru | 03000 6 03000
innovation@wales.gsi.gov.uk | businesswales.gov.wales/cy/innovation

Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

WG30458 / © Hawlfraint y Goron 2017 OGL